**DEDDF DRWYDDEDU 2003**
TRWYDDED ANHEDDAU

Cyngor Sir **Ceredigion** County Council

**ydded anheddau**

**PRM 0145 (03/12/2019)**

**- Manylion am y safle**

| **Cyfeiriad post y safle, neu os nad oes un, cyfeirnod map ordnans neu ddisgrifiad**<br><br>**BLACK LION**<br><br>**LLANBADARN FAWR** | |
|---|---|
| **Tref bost**<br>**ABERYSTWYTH** | **Cod Post**<br>**SY23 3RA** |
| **Rhif ffôn**<br>**01970 623 448** | |

**Os oes cyfyngiad ar yr amser, y dyddiadau**

**NID OES CYFYNGIADAU AMSER AR Y DRWYDDED**

**Gweithgareddau trwyddedadwy a ganiateir gan y drwydded**

**ADLONIANT WEDI EI REOLEIDDIO**
**FFILMIAU**
**DIGWYDDIADAU CHWARAEN DAN DO**
**CERDDORIAETH FYW**
**CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO**
**PERFFORMIADAU DAWNS**

**DARPARU LLUNIAETH POETH YN HWYR YN Y NOS**

**CYFLENWI ALCOHOL**

**Yr amseroedd y mae'r drwydded yn caniatáu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy**

**ADLONIANT WEDI EI REOLEIDDIO**
**FFILMIAU**
**DIGWYDDIADAU CHWARAEN DAN DO**
**CERDDORIAETH FYW**
**CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO**
**PERFFORMIADAU DAWNS**

**DARPARU LLUNIAETH POETH YN HWYR YN Y NOS: O 2300**

**CYFLENWI ALCOHOL**

**GWEITHGAREDDAU UCHOD:**

| | |
|---|---|
| **LLUN – IAU:** | **1100 – 2400 yn ddyddiol** |
| **GWE:** | **1100 – 0030** |
| **SAD:** | **1100 – 2400** |
| **SUL:** | **1200 – 2330** |

**AMSERAU ANSAFONOL**
**GWE – LLUN Penwythnosau Gwyl y Banc: 1100 – 0030 yn ddyddiol**
**NOSWYL NADOLIG a DIWRNOD SAN STEFFAN: 1100 – 0030**
**NOSON CALAN GAEAF: 1100 hyd awr terfynol Dydd Calan**
**Digwyddiadau Chwaraeon ar y Teledu o ddiddordeb cenedlaethol neu rhyngwladol tu allan i oriau arferol gweithredu. Oriau agor am y pwrpas yma i'w cadarnhau yn ysgrifennedig i'r Heddlu 7 diwrnod ymlaen llaw. Yr hysbyseb i gynnwys yr oriau agor a'r digwyddiad chwaraeon i'w dangos.**

**Oriau agor y safle**

| | |
|---|---|
| **. LLUN – IAU:** | **1100 – 0030 yn ddyddiol** |
| **GWE:** | **1100 – 0100** |
| **SAD:** | **1100 – 0030** |

**Yr eiddo i gau 30 munud ar ôl yr amserau ansafonol**

**Os yw'r drwydded yn caniatáu cyflenwi alcohol, a yw hyn yn golygu ar gyfer yfed ar y safle neu oddi yno**

**AR AC ODDI AR Y SAFLE**

| |
|---|
| **Enw, cyfeiriad (cofrestredig), rhif ffôn ac e-bost (os yw’n berthnasol) deilydd y drwydded safle**<br><br>**Admiral Taverns Piccadilly Limited**<br>**Milton Gate 60**<br>**Chiswell Street**<br>**London**<br>**EC1Y 4AG** |
| **Rhif cofrestredig y deilydd, er enghraifft rhif cwmni, rhif elusen (os yw’n berthnasol)** |
| **Enw, cyfeiriad a rhif ffôn Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw’r drwydded safle yn caniatáu cyflenwi alcohol**<br><br>**TRACY JEAN DAVIES** |
| **Rhif trwydded bersonol ac enw’r awdurdod sy’n rhoi’r drwydded bersonol a ddelir gan y Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw’r drwydded safle yn caniatáu cyflenwi alcohol**<br><br>**CER 1279**<br><br>**CYNGOR SIR CEREDIGION** |

## 1 Amodau gorfodol pan fydd trwydded yn awdurdodi cyflenwi alcohol

(1) Pan fydd trwydded safle’n awdurdodi cyflenwi alcohol, rhaid i’r drwydded gynnwys yr amodau canlynol.
(2) Yr amod cyntaf yw na ellir cyflenwi alcohol dan y drwydded safle-
(a) ar adeg pan nad oes yna oruchwyliwr safle dynodedig yn unol â’r drwydded safle, neu
(b) ar adeg pan nad oes gan y goruchwyliwr safle dynodedig drwydded bersonol neu pan fydd ei drwydded bersonol wedi’i hatal.
(3) Yr ail amod yw bod unrhyw alcohol a gyflenwir dan y drwydded safle’n gorfod cael ei gyflenwi neu’i awdurdodi gan berson sydd â thrwydded bersonol.

## 2 Amod gorfodol: dangos ffilmiau

(1) Pan fydd trwydded safle’n awdurdodi dangos ffilmiau, rhaid i’r drwydded gynnwys amod bod mynediad i blant pan fydd unrhyw ffilm yn cael ei dangos yn cael ei gyfyngu yn unol â’r adran hon.
(2) Pan fydd y corff categoreiddio ffilmiau’n cael ei nodi yn y drwydded, oni bai bod is-adran (3)(b) yn berthnasol, rhaid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan y corff hwnnw.
(3) (a) pan nad yw’r corff categoreiddio ffilmiau wedi’i nodi yn y drwydded, neu
(b) pan fydd yr awdurdod trwyddedu wedi hysbysu deiliad y drwydded bod yr is-adran hon yn berthnasol i’r ffilm dan sylw, dylid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan yr awdurdod trwyddedu hwnnw.
(4) Yn yr adran hon -
Mae “plant” yn golygu pobl dan 18 oed; ac mae
"corff categoreiddio ffilmiau” yn golygu’r person neu’r personau a ddynodwyd fel yr awdurdod dan adran 4 o Ddeddf Recordiadau Fideo 1984 (c.39) (yr awdurdod sy’n pennu addasrwydd ffilmiau fideo ar gyfer categoreiddio).

## 3 Amod gorfodol: goruchwylio drysau

(1) Pan fydd trwydded safle’n cynnwys amod bod yn rhaid i un berson neu ragor fod ar yr eiddo ar adegau penodol i gwblhau gweithgaredd diogelwch, rhaid i’r drwydded gynnwys amod bod yn rhaid i unrhyw berson o’r fath feddu ar drwydded Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.
(2) Ond does dim byd yn is-adran (1) sy’n gofyn am osod amod o’r fath -
(a) ar gyfer safleoedd o fewn paragraff 8(3)(a) o Atodlen 2 Deddf y Diwydiant Diogelwch Preifat 2001 (c.12) (safleoedd gyda thrwyddedau safle sy’n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu
(b) ar gyfer safleoedd mewn perthynas ag-
(i) unrhyw achlysur a grybwyllir ym mharagraff 8(3)(b) neu (c) o’r Atodlen honno (safleoedd sy’n cael eu defnyddio gan glwb sydd â thystysgrif safle clwb yn unig, dan hysbysiad digwyddiad dros dro sy’n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu dan drwydded hapchwarae, neu

(ii) unrhyw achlysur o fewn paragraff 8(3)(d) o’r Atodlen honno (achlysuron a bennir gan reoliadau dan y Ddeddf honno).
(3) At ddibenion yr adran hon -
(a) mae "gweithgaredd diogelwch" yn golygu gweithgaredd y mae paragraff 2(1)(a) o’r Atodlen honno’n berthnasol ar ei gyfer, a
(b) bod paragraff 8(5) o’r Atodlen honno (dehongli cyfeiriadau at achlysur) yn berthnasol, am ei fod yn berthnasol mewn perthynas â pharagraff 8 o’r Atodlen honno.

**<u>Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2014</u>**

**Yn effeithiol o 6 Ebrill 2014**

1. Rhaid i berson perthnasol sicrhau na chaiff unrhyw alcohol ei werthu na'i gyflenwi i'w yfed ar y safle nac oddi arno am bris sy'n llai na'r pris a ganiateir.

2. At ddibenion yr amod a nodir ym mharagraff 1-

   (a) mae "treth" i'w dehongli yn unol â Deddf Trethi ar Ddiodydd Alcoholaidd 1979(**6)**;

   (b) "y pris a ganiateir" yw'r pris a geir drwy ddefnyddio'r fformiwla –

   P = D + (DxV)

   pan mai –

   (i) P yw'r pris a ganiateir

   (ii) D yw cyfradd y dreth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol, a

   (iii) V yw cyfradd y dreth ar werth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth ar werth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol

   (c) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae trwydded safle mewn grym, yw –

   (i) Deiliad y drwydded safle,

   (ii) Goruchwylydd dynodedig y safle (os oes un) mewn perthynas â thrwydded o'r fath, neu

   (iii) Deiliad trwydded bersonol sy'n cyflenwi alcohol o dan drwydded o'r fath neu sy'n caniatáu iddo gael ei gyflenwi;

   (d) ystyr "person perthnasol', mewn perthynas â safle lle y mae tystysgrif safle clwb mewn grym, yw unrhyw un o aelodau neu swyddogion y clwb sy'n bresennol ar y safle mewn rôl sy'n galluogi'r aelod neu'r swyddog i atal y cyflenwad o dan sylw; ac

(e) ystyr “treth ar werth” yw treth ar werth sy’n daladwy yn unol â Deddf Treth ar Werth 1994(7)

3. Os nad yw’r pris a ganiateir a roddir gan Baragraff (b) o baragraff 2 (ar wahân i’r paragraff hwn) yn rhif cyfan o geiniogau, rhaid cymryd mai’r pris a roddir gan yr is-baragraff hwnnw yw’r pris a roddir mewn gwirionedd gan yr is-baragraff hwnnw wedi’i dalgrynnu i fyny i’r geiniog agosaf.

4. (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys os yw’r pris a ganiateir gan Baragraff (b) o baragraff 2 ar y naill ddiwrnod (“y diwrnod cyntaf”) yn wahanol i’r pris a ganiateir ar y diwrnod nesaf (“yr ail ddiwrnod”) o ganlyniad i newid i gyfradd y dreth neu’r dreth ar werth.

   (2) Mae’r pris a ganiateir sy’n gymwys ar y diwrnod cyntaf yn gymwys i werthiant neu gyflenwad alcohol sy’n digwydd cyn i’r cyfnod o 14 diwrnod sy’n dechrau ar yr ail ddiwrnod ddod i ben.

<u>Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) (Diwygio) 2014</u>

Mae’r Amodau Gorfodol isod yn **disodli** Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2010 a daethant i rym ar **1 Hydref 2014.**

**Mae amodau 1 i 4 yn cyfeirio at yr <u>holl</u> safleoedd sy’n gwerthu neu gyflenwi alcohol i’w yfed <u>ar y safle.</u> Mae amod 3 yn berthnasol i safleoedd sy’n gwerthu alcohol i’w yfed <u>oddi ar y safle.</u>**

**1.** (1) Rhaid i’r person cyfrifol sicrhau nad yw staff ar y safle perthnasol yn ymgymryd â, yn trefnu neu’n cymryd rhan mewn unrhyw hyrwyddo anghyfrifol mewn perthynas â’r safle.

(2) Yn y paragraff hwn, mae hyrwyddo anghyfrifol yn golygu un neu fwy o’r gweithgareddau a ganlyn, neu weithgareddau sy’n sylweddol debyg, sy’n digwydd er mwyn hyrwyddo gwerthiant neu gyflenwad o alcohol i’w yfed ar y safle -

(a) gemau neu weithgareddau eraill sy’n gofyn am neu’n hybu, neu sydd wedi’u dylunio i ofyn neu i hybu unigolion i -

(i) yfed swm o alcohol o fewn cyfyngiad amser (heblaw yfed alcohol a werthwyd neu a gyflenwyd ar y safle cyn terfyn y cyfnod y mae'r unigolyn cyfrifol wedi'i awdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol), neu

(ii) yfed cymaint o alcohol â phosib (un ai mewn cyfyngiad amser neu fel arall);

(b) darparu swm diddiwedd neu amhenodol o alcohol am ddim neu am bris penodedig neu ar ddisgownt i'r cyhoedd neu i grŵp a gaiff ei ddiffinio gan nodwedd benodol sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(c) darparu alcohol am ddim neu ar ddisgownt neu unrhyw beth arall fel gwobr i annog neu i wobrwyo prynu ac yfed alcohol dros gyfnod o 24 awr neu lai mewn modd sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(d) gwerthu neu gyflenwi alcohol mewn cysylltiad â phosteri neu bamffledi ar, neu yng nghyffiniau'r safle, a ellir ei ystyried yn rhesymol fel ei fod yn caniatáu, neu'n annog neu'n cyfeirio at effeithiau meddwdod ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn modd ffafriol;

(e) unigolyn yn tywallt alcohol yn uniongyrchol i geg unigolyn arall (heblaw pan fo unigolyn yn methu yfed heb gymorth oherwydd anabledd).

**2.** Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau fod dŵr yfed am ddim yn cael ei ddarparu ar gais i gwsmeriaid pan fod hyn ar gael yn rhesymol.

**3.** (1) Rhaid i ddeilydd y drwydded eiddo neu ddeilydd y dystysgrif eiddo clwb sicrhau y gweithredir polisi gwirio oed ar y safle mewn perthynas â gwerthu neu gyflenwi alcohol.

(2) Rhaid i oruchwyliwr dynodedig y safle mewn perthynas â'r drwydded eiddo sicrhau bod gwerthiant alcohol ar y safle yn digwydd yn unol â'r polisi gwirio oed.

(3) Rhaid i'r polisi fynnu bod unigolion sy'n edrych dan 18 oed i'r person cyfrifol (neu'r oed hŷn a nodir yn y polisi) ddangos ar gais, cyn cael prynu alcohol, tystiolaeth yn cynnwys eu llun, dyddiad geni a naill ai -

(a) marc holograffig, neu

(b) nodwedd uwchfioled.

**4.** Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau -

(a) os caiff unrhyw un o'r diodydd alcoholig canlynol eu gwerthu neu eu cyflenwi i'w hyfed ar y safle (heblaw am ddiodydd alcohol sy'n cael eu gwerthu neu eu cyflenwi ar ôl eu gwneud yn barod i'w gwerthu mewn cynhwysydd wedi'i gau'n ddiogel), bydd yr alcohol ar werth i gwsmeriaid yn y mesurau a ganlyn -

(i) cwrw neu seidr: ½ peint;

(ii) jin, rym, fodca neu wisgi: 25 ml neu 35 ml; a

(iii) gwin llonydd mewn gwydryn: 125 ml;

(b) caiff y mesurau hyn eu dangos mewn bwydlen, ar restr brisiau neu ddeunydd printiedig arall sydd ar gael i gwsmeriaid ar y safle; a

(c) lle nad yw cwsmer, mewn perthynas â gwerthiant alcohol, yn manylu ar y swm o alcohol i'w werthu, bydd y gwerthwr yn hysbysu'r cwsmer fod y mesurau hyn ar gael.

**Atodiad 2 – Amodau sy’n gyson â’r Rhestr weithredu**

**Safle’n atebol i amodau ymhlygedig a addaswyd dan Drwydded Adloniant Cyhoeddus rhif 2301.**

**Amodau Trwydded Adloniant Cyhoeddus**

**C. YR AMODAU**

1. Wrth ddefnyddio’r Safle i ymarfer y Drwydded, bydd y Trwyddedai bob amser yn cydymffurfio ag Amodau’r Drwydded, a bydd ond yn cynnal y math o Adloniant Cyhoeddus a ddynodir yn y Drwydded.

2. Bydd y Trwyddedai neu berson arall cyfrifol sy’n 18 oed neu drosodd ac sydd wedi’i awdurdodi gan y Trwyddedai’n ysgrifenedig (“yr Enwebai”) yn bresennol ar y Safle trwy gydol yr amser y bydd y Safle ar agor ar gyfer Adloniant Cyhoeddus.

3. Os digwydd bod cyflogaeth y trwyddedai’n dod i ben ar y safle trwyddedig, neu os na fydd bellach yn ymwneud â threfnu neu reoli’r adloniant dan do ar y safle trwyddedig, yna dylai hysbysu’r Cyfarwyddwr Iechyd Amgylcheddol a Safonau Masnach o fewn 72 awr, a darparu enw’r person(au) newydd fydd yn ymwneud â hynny.

4. Bydd y Trwyddedai neu’r Enwebai’n goruchwylio mewn modd digonol yr holl bobl sydd ar y Safle i sicrhau trefn dda ac ymddygiad gweddus, ac ni fydd yn caniatáu mynediad i unrhyw rai y credir yn rhesymol eu bod dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau.

5. Ni chaiff unrhyw un ddal mwy nag un drwydded ar gyfer yr un dyddiad ac amser.

6. Ni fydd y Safle’n cael ei ddefnyddio ar gyfer Adloniant Cyhoeddus oni bai am y dyddiau a’r oriau a nodir yn y Drwydded, yn amodol ar unrhyw amrywiadau a awdurdodwyd yn sgil Gorchymyn Arbennig i Eithrio dan Adran 74 o Ddeddf Trwyddedu 1964.

7. *Ni fydd y Safle’n cael ei ddefnyddio ar gyfer Adloniant Cyhoeddus ar Ddydd Nadolig na Dydd Gwener y Groglith.*

8. Ni fydd cyfanswm y bobl sy’n bresennol yn yr Ardal Drwyddedig ar unrhyw un adeg yn ystod Adloniant Cyhoeddus yn fwy na’r nifer uchaf a nodir yn y Drwydded, a bydd y Trwyddedai, yr Enwebai, yr holl aelodau staff, ac unrhyw rai eraill sy’n bresennol, yn cael eu cynnwys yn y nifer a gyfrifir, ac eithrio unrhyw swyddog awdurdodedig o’r Cyngor, yr Heddlu neu’r Awdurdod Tân, neu gynrychiolydd asiantaeth hyrwyddo iechyd sydd wrthi’n cyflawni’u dyletswyddau.

9. Bydd y Trwyddedai’n sicrhau bod copi o’r Drwydded ac Amodau’r Drwydded yn cael ei arddangos a’i gadw mewn cyflwr da ger y brif fynedfa i’r Safle, fel bod unrhyw berson sy’n dod i mewn i’r Safle’n gallu ei ddarllen yn rhwydd. Yn ogystal, arddangosir hysbysiad clir ac amlwg ger y brif fynedfa, yn datgan ‘safle wedi’i drwyddedu i dderbyn [ ] o bobl at ddibenion Adloniant Cyhoeddus, gan gynnwys staff’ mewn llythrennau sy’n 25mm o uchder o leiaf.

10. Bydd y Trwyddedai’n tynnu’n sylw’r holl Oruchwylwyr Drysau, ac unrhyw staff eraill a gyflogir ar y Safle’n achlysurol, at gynnwys y Drwydded, y Cynllun Cymeradwy, amodau’r Drwydded, a’r Cynllun Eistedd cymeradwy (os yn briodol).

11. Bydd Swyddogion awdurdodedig y Cyngor, yr Heddlu, a Brigâd Dân Canolbarth a Gorllewin Cymru’n cael mynediad dirwystr i’r safle trwyddedig ar unrhyw adeg resymol i gyflawni’u dyletswyddau statudol.

12. Ni fydd unrhyw boster, llun neu ddeunydd arall yn cael ei arddangos, ei werthu, neu’i gyflenwi ar y safle, sy’n debygol o dramgwyddo moesoldeb, annog neu gymell trosedd, creu anhrefn, neu dramgwyddo teimladau cyhoeddus.

13. Ni fydd y Trwyddedai'n caniatáu unrhyw arddangosfa neu arddangosiad neu berfformiad o hypnotiaeth (fel y'i diffinnir dan adran 6 o Ddeddf Hypnotiaeth 1952) ar y Safle fel rhan o'r Drwydded heb gael caniatâd ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw.

14. Ni fydd y Trwyddedai'n caniatáu neu'n ymgymryd ag unrhyw addasiad sylweddol i'r Safle heb gael caniatâd ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw.

15. **DRYSAU ALLANFA**

15.1 Bydd y safle'n cael ei ddarparu â nifer digonol o allanfeydd sydd wedi'u gosod a'u cynnal fel bod gan y cyhoedd ffyrdd parod a digonol o adael yn ddiogel. Bydd unrhyw ddrysau sy'n arwain o'r allanfeydd i gynteddau neu i'r awyr agored yn cael eu cadw ar agor, fel bo'n ofynnol gan y Cyngor, a'u cau gyda chloeon clap neu ddyfeisiau eraill, a byddant yn glir o rwystrau. Ni osodir unrhyw rwystrau dros dro, a bydd unrhyw rwystr parhaol a osodir ar draws llwybr allanfa gyda sêl bendith y Cyngor er mwyn gwirio a rheoli mynediad, yn cael ei osod fel bod y rhan sy'n union o flaen yr allanfa'n agor yn awtomatig wrth bwyso arno i gyfeiriad yr allanfa.

15.2 Bydd pob Drws Allanfa'n cael ei lunio a'i gynnal fel ei fod yn hawdd ei agor lled y pen, a rhaid tynnu pob clo clap, datgloi pob clo gosod, a thynnu pob barilfollt yn ôl cyn i'r Safle agor ar gyfer Adloniant Cyhoeddus, a dylid cadw'r holl gloeon clap, cloeon gosod a barilfolltau hyn ar agor trwy gydol y cyfnod y mae'r Safle ar agor ar gyfer Adloniant Cyhoeddus, a nes bod pawb sy'n mynychu'r adloniant wedi gadael.

15.3 Bydd unrhyw ddrysau neu allanfeydd o'r fath a gymeradwyir gan y Cyngor yn cael eu nodi'n glir gydag arwyddion Diogelwch Tân, rhybuddion, a symbolau graffig a fydd yn cydymffurfio â BS5499 Rhan1:1990 (Gofynion Arwyddion Diogelwch Tân) a'u hongian fel eu bod yn agor i gyfeiriad yr allanfa, neu i fod yn ddrysau siglo dwbl, na fydd, ar ôl eu hongian, yn agor yn union uwchben stepen neu risiau.

15.4 Bydd pob drws Allanfa'n cael ei nodi'n glir gydag arwydd ALLANFA a fydd yn cydymffurfio â holl amodau perthnasol presennol Safonau Prydain, sy'n gofyn bod yr arwyddion mewn llythrennau gwyn ar gefndir gwyrdd.

15.5. Bydd pob drws sydd â dyfais bar panig yn cael ei nodi gydag arwydd sy'n dweud 'GWTHIWCH Y BAR I AGOR' mewn llythrennau gwyn bras sy'n 50mm o uchder o leiaf ac o led cymesur, ar gefndir gwyrdd, a bydd yr arwydd hwnnw wedi'i osod mewn man amlwg yn union uwchben bar llorweddol y Drws Allanfa.

15.6. Bydd unrhyw Ddrysau a Gatiau Allanfa allanol sy'n agor tuag at i mewn yn unig yn cael eu cadw ar agor mewn modd fydd yn golygu na ellir eu cau'n ddamweiniol neu heb awdurdod.

15.7. Ar ddiwedd Adloniant Cyhoeddus caniateir i bobl adael y Safle trwy'r holl Ddrysau Allanfa **priodol,** a fydd, ar yr adeg honno, ar agor led y pen.

15.8. Gosodir hysbysiadau ar ddrysau ac agorfeydd (ar wahân i allanfeydd) sy'n arwain at rannau eraill o'r safle, yn nodi pa ddefnydd a wneir o'r rhan honno neu'n nodi 'PREIFAT' os na chaniateir mynediad i'r cyhoedd.

15.9. Ni ddylid gosod hysbysiadau'n cynnwys y geiriau 'DIM ALLANFA' heb ganiatâd y Cyngor.

15.10. Os bydd y Cyngor yn caniatáu'r defnydd o gadwyni, cloeon clap neu ddyfeisiau eraill ar gyfer cloi drysau pan nad yw'r cyhoedd ar y safle, bydd gofyn bod person cyfrifol yn tynnu unrhyw gadwyni, cloeon clap neu ddyfeisiau eraill o'r fath cyn caniatáu mynediad i'r cyhoedd, ac ni fydd unrhyw gadwyni, cloeon clap neu ddyfeisiau eraill o'r fath yn cael eu hailosod yn ystod yr holl amser y mae'r cyhoedd yn bresennol ar y safle trwyddedig.

15.11 Lle defnyddir gatiau plygadwy neu ddrysau rholio, rhaid cloi'r rhain ar agor pan fydd y cyhoedd yn bresennol. Ni fydd drysau troi'n cael eu defnyddio fel drysau allanfa.

15.12 Rhaid archwilio a phrofi pob Drws Allanfa'n gorfforol cyn agor y safle ar gyfer Adloniant Cyhoeddus, i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag Amod 15.

## 16. GORUCHWYLWYR DRYSAU/STIWARDIAID

16.1 Bydd y Trwyddedai'n enwebu Goruchwyliwr Drysau cyfrifol sy'n 18 oed neu drosodd ar gyfer pob un Drws Allanfa, a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y Drws Allanfa'n cael ei agor ar unwaith os bydd yna dân neu argyfwng arall, ac i osgoi amheuaeth, un drws yn unig a ddynodir i bob Goruchwyliwr Drysau.

16.2 Ni fydd unrhyw Oruchwyliwr Drysau'n ymgymryd ag unrhyw ddyletswydd arall a fyddai'n ei atal rhag:

i) cyflawni'r ddyletswydd a nodir yn Amod 16.1
ii) goruchwylio a rheoli'n gyffredinol y bobl sy'n mynychu'r Safle ar gyfer Adloniant Cyhoeddus.

16.3 Yn unol ag amod 16.4 bydd y Trwyddedai'n darparu nifer priodol o Oruchwylwyr Drysau ar gyfer y nifer uchaf o bobl a ganiateir yn ôl y drwydded, a bydd y nifer priodol hwnnw'n golygu un ar gyfer bob 100 o bobl neu ran o 100 sy'n rhan o'r nifer hwnnw, ond pan fydd yna dystysgrif mewn grym ar gyfer y Safle dan Adran 77 o Ddeddf Trwyddedu 1964, bydd y nifer priodol yn ddau ar gyfer y 100 cyntaf, ac yna un ychwanegol ar gyfer bob 100 arall neu ran o 100 sy'n rhan o'r nifer uchaf a ganiateir.

16.4 Os bydd y Trwyddedai am leihau'r nifer uchaf fel y'i gosodir yn y drwydded ar gyfer digwyddiad Adloniant Cyhoeddus arbennig, rhaid iddo yn gyntaf gael caniatâd y Cyngor, gan wneud cais i'r perwyl hwnnw o leiaf **deg diwrnod gwaith** cyn y digwyddiad.

16.5 Pan fydd y Trwyddedai'n cynnwys adloniant disgo sglefrolio, sglefrio neu adloniant tebyg, mi fydd angen o leiaf un Goruchwyliwr Drysau ar ddyletswydd ar y Safle ar gyfer bob 75 o bobl neu ran o 75 sy'n rhan o'r nifer uchaf a ganiateir yn unol â'r Drwydded.

16.6 Ni chyflogir unrhyw Oruchwyliwr Drysau ar y Safle gan y Trwyddedai at ddibenion Amod 16 oni bai ei fod yn unigolyn cymwys a gweddus, a nes ei fod ef neu hi wedi'i gydnabod gan y Cyngor fel Goruchwyliwr Drysau Cofrestredig.

16.7 Bydd gan bob Goruchwyliwr Drysau dortsh drydan effeithiol.

16.8 Pan fyddant ar ddyletswydd ar y Safle bydd Goruchwylwyr Drysau'n gwisgo cerdyn adnabod sy'n cwrdd â gofynion y Cyngor fel y'u gosodir yn Amod 16.9.

16.9 Pan fyddant ar ddyletswydd ar y Safle bydd Goruchwylwyr Drysau'n gwisgo cerdyn adnabod ar ochr chwith y frest, gyda'u rhif cofrestru a llun ohonynt yn wynebu tuag allan, yn unol â gofynion y Cyngor.

16.10 Ni chaniateir i unrhyw Oruchwyliwr Drysau yfed diod feddwol na chymryd unrhyw gyffur yn ystod unrhyw gyfnod y mae ar ddyletswydd ar y Safle.

16.11 Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod yr holl Oruchwylwyr Drysau'n cael cyfarwyddiadau llawn mewn perthynas â'r drefn diogelwch tân, yn unol ag Amod 22, gan gynnwys sut i ddefnyddio'r offer diffodd tân sydd ar gael a sut i alw'r Awdurdod Tân mewn argyfwng.

16.12 Bydd trwyddedai'r safle trwyddedig (Clybiau a Thafarndai) yn cadw, dros gyfnod y drwydded, gofrestr o'r holl bersonél diogelwch a gyflogir ar y safle, a ddylai fod yn unigolion cymwys ac addas, a dylid cynnwys cyfeiriad at y canlynol:

i) rhif cofrestru ac enw a chyfeiriad yr unigolyn

ii) dyddiad ac amser y dechreuodd ef/hi ar ei (d)dyletswyddau, ynghyd â chydnabyddiaeth wedi'i llofnodi gan yr unigolyn hwnnw

iii) dyddiad ac amser y gorffennodd ef/hi ei (d)dyletswyddau, ynghyd â chydnabyddiaeth wedi'i llofnodi gan yr unigolyn hwnnw

iv) os nad yw'r unigolyn wedi'i gyflogi gan y trwyddedai, enw'r person neu'r cwmni neu'r asiant sy'n cyflogi'r unigolyn, neu y sicrhawyd gwasanaethau'r unigolyn trwyddynt.

v) cedwir y gofrestr fel ei bod ar gael yn hwylus os bydd swyddog awdurdodedig o'r Cyngor neu'r Heddlu'n gofyn am ei gweld

vi) bydd y gofrestr wedi'i rhwymo a'i rhifo mewn trefn, a bydd y trwyddedai'n sicrhau ei bod yn cael ei chadw'n ddiogel er mwyn atal unrhyw un rhag cael mynediad ati neu'i haddasu heb awdurdod

vii) bydd y trwyddedai'n cadw'r gofrestr yn ddiogel a rhaid cadw cofnodion am gyfnod o 3 blynedd o leiaf.

16.13 Bydd y trwyddedai/deiliad trwydded adloniant, cyn gynted ag y mae'n rhesymol ymarferol, yn hysbysu'r Swyddog Trwyddedu ynghylch unrhyw Oruchwylwyr Drysau Safleoedd Trwyddedig a gafodd eu diswyddo am ymddygiad difrifol a allai gael effaith resymol ar eu cofrestriad, neu ar adnewyddu eu cofrestriad fel Goruchwylwyr Drysau Safleoedd Trwyddedig.

16.13.1. Rhaid i Oruchwyliwr Drysau hysbysu'r Cyngor am unrhyw euogfarn neu drosedd o fewn saith diwrnod o'r euogfarn honno.

16.14 Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod unrhyw rai dan 18 oed sy'n dod i'r safle (neu unrhyw dir sydd wedi'i gynnwys yn yr ardal y cyfeirir ati yn y Drwydded Adloniant Cyhoeddus) yn cael eu gwahardd rhag yfed alcohol, ac yn cyflwyno mesurau effeithiol i sicrhau bod yna gydymffurfio â'r amod hwn.

## 17. DIOGELWCH TRYDANOL

17.1 Bydd yr holl osodiadau trydan ar y safle, gan gynnwys unrhyw wifrau, ffitiadau a chyfarpar, yn cael eu cadw mewn cyflwr diogel a fydd yn bodloni gofynion y Cyngor.

17.2 Bydd unrhyw waith addasu neu ychwanegu at y gosodiadau trydan neu unrhyw ffitiadau trydan eraill yn cael ei gyflawni'n unol â'r Safonau Prydeinig presennol gan Beiriannydd Trydanol Cymwysedig, ac ni wneir unrhyw waith trydanol sy'n gyfystyr ag addasiad sylweddol heb gael caniatâd ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw, yn unol ag Amod 14.

17.3 *Dylai'r holl osodiadau trydan O FEWN YR ADEILAD gael eu harchwilio a'u profi bob blwyddyn, a dylid cofnodi darlleniadau'r profion yn ôl y cyfarwyddyd a geir yn y rhifyn diweddaraf o Reoliadau Gwifro Sefydliad y Peirianwyr Trydanol (Rhifyn 16).*

17.4 Rhaid bod y sawl sy'n darparu unrhyw dystysgrifau trydanol yn Beiriannydd Trydanol/Contractwr Trydanol sy'n aelod o'r Cyngor Archwilio Cenedlaethol ar gyfer Contractio Gosodiadau Trydanol (NICEIC) neu'r Gymdeithas Contractwyr Trydanol (ECA).

17.5 Rhaid cyflwyno tystysgrif ddilys o'r fath gyda phob cais am drwydded neu gais i adnewyddu trwydded Adloniant Cyhoeddus, neu gyda chais am ganiatâd i wneud newidiadau strwythurol.

17.6 Os bydd unrhyw archwiliad a gynhelir dan Amod 17.3 yn datgelu bod unrhyw ran o'r gosodiad trydanol yn anniogel neu ddim yn cwrdd â gofynion y Rheoliadau Diogelwch neu Safonau Prydeinig oedd yn berthnasol ar adeg gosod, bydd y Trwyddedai'n cywiro'r nam neu'r diffyg cyn defnyddio'r Safle dan y Drwydded hon.

17.7 Heb amharu ar gyffredinolrwydd Amod 17.1 bydd pob cylched pŵer o fewn yr ardal drwyddedig yn cynnwys Dyfeisiau Cerrynt Gweddillol, a fydd yn rhan annatod o'r gosodiad, a bydd dyfeisiau o'r fath wedi'u cynllunio i weithredu os bydd y gollyngiad daearu yn fwy na 30 mili-amp, a hynny am gyfnod o 30 mili-eiliad ar y mwyaf.

17.8 Bydd Dyfeisiau Cerrynt Gweddillol yn amddiffyn pob soced a ddefnyddir ar gyfer yr offer trydanol cludadwy a ddefnyddir gan berfformwyr a DJs, a bydd cyfleuster profi'n cael ei gynnwys ymhob Dyfais Cerrynt Gweddillol.

17.9 Bydd yr holl Ddyfeisiau Cerrynt Gweddillol yn cael eu profi cyn i'r safle agor ar gyfer adloniant cyhoeddus.

## 18. **Y GOFRESTR**

18.1 Bydd y Trwyddedai'n cadw cofrestr ar ffurf llyfr sydd wedi'i rwymo'n barhaol, a bydd yn sicrhau bod yr wybodaeth ganlynol yn cael ei chofnodi yn y gofrestr ar yr adeg briodol.

i) enwau a chyfeiriadau'r holl Oruchwylwyr Drysau a Goruchwylwyr Drysau Cofrestredig, cyn iddyn nhw ddechrau'u dyletswyddau ar y Safle ar unrhyw achlysur pan fydd y Safle ar agor ar gyfer Adloniant Cyhoeddus.

ii) cadarnhad bod y profion a'r gwiriadau gofynnol dan Amod 17.9 (Dyfeisiau Cerrynt Gweddillol) Amod 20.3 (goleuadau argyfwng), Amod 22.3 (offer diffodd tân), Amod 15.10 (allanfeydd brys) ac Amod 22.6 (cyfarwyddiadau staff) wedi'u cyflawni cyn cynnal Adloniant Cyhoeddus.

18.2 Bydd y gofrestr ar gael bob amser i'w harchwilio ar gais unrhyw swyddog awdurdodedig o'r Cyngor neu'r Awdurdod Tân neu'r Heddlu.

19. **GWRESOGI AC AWYRU**

19.1 Bydd holl rannau'r Ardal Drwyddedig yn cael eu darparu â system wresogi ac awyru ddigonol a fydd yn cwrdd â gofynion y Cyngor.

19.2 Ni fydd y Trwyddedai'n defnyddio nac yn caniatáu defnydd o wresogyddion cludadwy pan fydd y safle ar agor ar gyfer adloniant cyhoeddus.

20. **GOLEUADAU**

20.1 Darperir yr holl Ardal Drwyddedig a'r holl lwybrau dianc allanol â digon o olau artiffisial i fodloni'r Awdurdod Tân.

20.2 Darperir goleuadau argyfwng er mwyn i bobl allu gweld yn iawn wrth adael y Safle os digwydd bod y goleuadau arferol yn methu, a byddant yn destun gwasanaethau, profion ac archwiliadau yn unol â'r Safonau Prydeinig presennol.

20.3 Bydd yr holl oleuadau argyfwng yn cael eu profi cyn i'r Safle agor ar gyfer Adloniant Cyhoeddus i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.

20.4 **Dylai unrhyw adloniant ddod i ben ar unwaith, a dilyn gorchymyn i'r cyhoedd adael y safle:**

a) **Os bydd y goleuadau arferol yn methu, ac yn aros felly am fwy na hyd amser graddedig y goleuadau argyfwng, namyn un awr.**

b) **Os bydd y goleuadau arferol yn methu, a bod gan y goleuadau argyfwng hyd amser graddedig o un awr neu lai.**

c) **Os nad yw ffynhonnell cyflenwad y goleuadau argyfwng yn ddigonol i gynnal y goleuadau hynny am awr o leiaf.**

d) **Os nad yw'r goleuadau argyfwng yn llwyddo i gydymffurfio â lefel y golau sy'n ofynnol.**

## 21. SEDDI A LLORIAU

21.1 Dylid cyflwyno cynllun seddi i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod Trwyddedu, **sy'n cydymffurfio â Chanllawiau'r Swyddfa Gartref ar gyfer Rhagofalon Tân Lleoliadau Adloniant sydd Eisoes yn Bodoli,** a phan fydd wedi'i gymeradwyo, dylid ei arddangos mewn man amlwg ar y Safle.

21.2 Gall seddi ar gyfer hyd at 200 o bobl fod yn rhai unigol/rhydd.

21.3 Ar gyfer mwy na 200 o bobl, rhaid bod y cadeiriau'n sownd yn ei gilydd, mewn rhesi o 4 o leiaf, ond dim mwy na 12.

21.4 Os bydd mwy na **200** o bobl, dylai cadeiriau ger ffrynt, cefn neu ar draws yr eiliau, a chadeiriau ger allanfeydd, fod wedi'u clymu'n sownd i'r llawr.

21.5 **Gyda seddi sefydlog** dylid cael o leiaf 300mm o led rhwng un rhes o seddi â'r llall.

21.6 Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod pob arwyneb llawr, pob gorchudd llawr, grisiau, grisffyrdd a chanllawiau yn yr Ardal Drwyddedig, a ger pob mynedfa i'r ardal honno, mewn cyflwr diogel, ac yn cydymffurfio â gofynion y Cyngor a'r Awdurdod Tân.

21.7 Bydd ymyl flaen unrhyw stepiau a grisiau yn cael eu hamlygu, a bydd yr holl eiliau, allanfeydd ac arwyneb stepiau a grisiau'n cael eu trin â gorffeniad gwrth-lithr.

## 22. DIOGELWCH TÂN

22.1 Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod yna gydymffurfio â'r holl fesurau atal tân ac unrhyw fesurau diogelwch tân eraill sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Tân.

22.2 Bydd offer diffodd tân digonol ac addas yn cael ei ddarparu, ei gynnal, a'i leoli i fodloni gofynion yr Awdurdod Tân, a bydd unrhyw offer o'r fath yn cael ei archwilio'n flynyddol gan berson cymwys.

22.3 Heb amharu ar Amod 22.2 bydd yr holl offer diffodd tân yn cael ei archwilio cyn i'r Safle agor ar gyfer Adloniant Cyhoeddus.

22.4 Bydd y Trwyddedai'n gosod ac yn cynnal ffôn ar y Safle i'w ddefnyddio os bydd tân neu argyfwng arall, a bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod hysbysiad wedi'i osod mewn man amlwg gerllaw pob un ffôn sydd ar y Safle, sy'n nodi sut i alw'r Awdurdod Tân, cyfeiriad y Safle, a rhif ffôn y ffôn arbennig hwnnw.

22.5 Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod hysbysiad yn cael ei arddangos mewn man amlwg ger y Brif Fynedfa i'r Safle, yn nodi lleoliad y ffôn agosaf y tu allan i'r Safle, a'r dull o alw am yr Awdurdod Tân.

22.6 Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod trefn dân safonol yn cael ei llunio ar gyfer y Safle, a bydd yn sicrhau yn arbennig ei bod yn cynnwys y camau canlynol os digwydd bod y Trwyddedai, Goruchwyliwr Drysau, Goruchwyliwr Drysau Cofrestredig, neu aelodau staff eraill yn canfod, neu'n amau bod tân ar y Safle:

i) bydd y larwm yn cael ei chanu ar unwaith trwy ddefnyddio'r cod neu'r dull gweithredu a ddarparwyd
ii) bydd yr Awdurdod Tân yn cael ei alw ar unwaith os bydd tân neu amheuaeth o dân ar y safle. Rhaid galw'r Awdurdod Tân hefyd os bydd tân ar unrhyw adeg pan nad yw'r Safle ar agor ar gyfer Adloniant Cyhoeddus. Mae'r amod hwn yn berthnasol p'un ai ydy'r tân wedi diffodd ei hun ai peidio.
iii) bydd y Trwyddedai neu'r Person Enwebedig yn rhoi terfyn ar yr Adloniant Cyhoeddus ar unwaith, ac yn sicrhau bod holl oleuadau'r Safle'n cael eu troi ymlaen cyn gwneud cyhoeddiad, gan roi ystyriaeth i'r angen i wacáu'r Safle'n gyflym ac yn drefnus heb greu panig.
iv) Bydd y Trwyddedai neu'r Person a Enwebwyd ganddo'n edrych yn y toiledau a'r ardaloedd atodol i sicrhau bod pawb wedi gadael.
v) Bydd Drws pob Allanfa'n cael ei agor led y pen, ac ar ôl gwacáu'r Safle, gellir taclo'r tân gyda'r offer diffodd tân sydd ar gael ar yr amod nad yw hynny'n rhoi unrhyw un mewn gormod o berygl.
vi) Trwy gydol y broses wacáu, dylid osgoi defnyddio'r gair 'TÂN'.
vii) Ni ddylid defnyddio, cynnau neu storio unrhyw ffrwydron, deunydd pyrotechnegol, hylifau fflamadwy, anweddau neu nwyon meddwol, neu unrhyw effeithiau arbennig eraill ar y Safle heb sêl bendith yr Awdurdod Tân ymlaen llaw.
viii) Bydd yr holl ffabrigau, llenni a gorchuddion yn yr ardal drwyddedig o ddefnydd gwrthfflam, neu byddant wedi'u trin â sylwedd gwrthdan gwydn i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau Prydeinig presennol.

ix) Bydd defnydd yr holl seddi meddal a ddarperir o fewn yr Ardal Drwyddedig yn cydymffurfio â'r Safonau Prydeinig presennol o ran bod yn wrthdan.

23. **CYMORTH CYNTAF**

23.1 Bydd offer Cymorth Cyntaf yn cael ei ddarparu a'i gynnal ar y Safle bob amser, a gosodir hysbysiadau clir yn nodi lleoliad unrhyw offer o'r fath mewn modd a gymeradwyir gan y Cyngor.

23.2 Bydd unrhyw offer Cymorth Cyntaf a ddarperir dan Amod 23.1 yn cydymffurfio â'r gofynion lleiaf a osodir yn yr Atodiad i'r ddogfen hon, a chydag unrhyw ofynion ychwanegol a osodir gan y Cyngor mewn perthynas â'r Safle.

23.3 Pryd bynnag y bydd y Safle'n cael ei ddefnyddio ar gyfer sglefrio, p'un ai ar iâ neu ar arwyneb synthetig, neu ar gyfer sglefrolio i gerddoriaeth, bydd pwynt Cymorth Cyntaf gydag offer llawn yn cael ei ddarparu a'i gynnal yn unol â gofynion y Cyngor, a bydd y pwynt hwn wedi'i nodi trwy gyfrwng hysbysiadau addas. Bydd o leiaf un person sydd â Thystysgrif Cymorth Cyntaf gyfredol y Groes Goch neu Frigâd Ambiwlans Sant Ioan ar gael ar y safle.

**24. CYFLEUSTERAU/TOILEDAU**

24.1 Darperir toiledau digonol ac ar wahân ar y Safle ar gyfer aelodau'r cyhoedd o'r ddau ryw, gyda drysau sydd wedi'u marcio'n glir a phriodol, a rhoddir ystyriaeth i'r canllawiau a geir yn y Safonau Prydeinig presennol i sicrhau bod yna doiledau digonol.

24.2 Bydd unrhyw doiledau a ddarperir yn unol ag Amod 24.1 yn cael eu cadw mewn cyflwr a threfn dda, a byddant yn cael eu glanhau, eu goleuo, a'u hawyru'n briodol ac effeithiol, gyda dŵr tap poeth ac oer, sebon a chyfleusterau sychu dwylo digonol. Yn achos toiledau'r merched, bydd darpariaeth ddigonol ar gyfer cael gwared â deunydd mislif.

25. **GLENDID Y SAFLE**

25.1 Bydd pob rhan o'r Safle ac unrhyw iard sy'n rhan o'r Safle'n cael eu cadw mewn cyflwr glân a thaclus sy'n bodloni safonau'r Cyngor.

25.2 Darperir nifer digonol o gynwysyddion addas, gyda chaeadau sy'n ffitio'n iawn, ar gyfer derbyn sbwriel oddi ar y Safle.

25.3 Bydd y cynwysyddion hyn yn cael eu cadw mewn cyflwr glân a thaclus, a byddant wedi'u lleoli'n unol â gofynion y Cyngor. Gwneir trefniadau digonol ar gyfer symud urhyw sbwriel o'r Safle'n rheolaidd.

## 26. NIWSANS SŴN A THREFN GYHOEDDUS

26.1 Ni chaniateir unrhyw arddangosfa, adroddiad, meim, canu neu ddawnsio sy'n anweddus neu'n debygol o darfu ar yr heddwch yn yr Ardal Drwyddedig.

26.2 Heb amharu ar allu'r Cyngor i ymarfer ei bwerau a'i ddyletswyddau mewn perthynas â Deddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990, ni fydd y Trwyddedai'n defnyddio, neu'n caniatáu i'r Safle gael ei ddefnyddio mewn modd a allai amharu ar drigolion cyfagos trwy greu gormod o sŵn neu anghyfleustra arall.

26.3 Os yw'n ofynnol gan y Cyngor, bydd y Trwyddedai:

i) yn sicrhau bod hysbysiadau'n gofyn i gwsmeriaid adael y Safle mewn modd tawel a threfnus yn cael eu harddangos mewn man amlwg ar y Safle
ii) yn sicrhau bod y staff yn cael cyfarwyddyd i ofyn i gwsmeriaid adael y Safle mewn modd tawel a threfnus
iii) yn cymryd unrhyw gamau all fod yn ymarferol i sicrhau nad yw ceir sy'n berchen i gwsmeriaid yn creu rhwystr ar y briffordd neu'n atal mynediad i eiddo preifat
iv) yn cymryd unrhyw gamau all fod yn ymarferol i sicrhau nad yw bysus, tacsis a cherbydau eraill sy'n dod i'r Safle ar ddiwedd adloniant cyhoeddus yn gadael i'w hinjan redeg pan maent yn segur, gan greu gormod o sŵn neu anghyfleustra i drigolion cyfagos, neu greu rhwystr ar y briffordd yn ddiangen.

26.4 Bydd y Trwyddedai'n sicrhau nad yw'r Safle neu dir cyfagos sydd dan ei reolaeth yn cael ei ddefnyddio i gyflenwi neu ddefnyddio cyffuriau a reolir.

Sylwer: Gall yr awdurdod trwyddedu, ar dderbyn adroddiad oddi wrth brif swyddog yr heddlu

a) yn nodi bod yna broblem ddifrifol mewn perthynas â chyflenwi neu ddefnyddio cyffuriau a reolir ar y safle neu unrhyw safle gerllaw a reolir gan ddeiliad y drwydded, gan
b) roi rhesymau dros ei farn bod yna broblem o'r fath:
    a) ddiddymu'r drwydded, neu

b) osod telerau, amodau, cyfyngiadau ar y drwydded neu ar gyfer cadw’r drwydded.

27. **LLES CWSMERIAID**

27.1 *Bydd y Trwyddedai’n sicrhau bod yna ddŵr yfed glân ac iachus ar gael bob amser yn ddi-dâl i gwsmeriaid sy’n gofyn amdano yn ystod Adloniant Cyhoeddus.*

27.2 Ar gais Swyddog awdurdodedig o’r Cyngor bydd y Trwyddedai’n neilltuo ystafell addas all fod ar gael yn ystod Adloniant Cyhoeddus ar gyfer cwsmeriaid anhwylus sydd angen adfer neu sy’n aros am driniaeth feddygol.

28. **POBL ANABL**

28.1 Ar unrhyw achlysur pan fydd pobl anabl yn bresennol ar y Safle yn ystod Adloniant Cyhoeddus, gwneir unrhyw drefniadau arbennig sydd eu hangen dan yr amgylchiadau i alluogi pob un i adael yn ddiogel mewn argyfwng.

29. **YSWIRIANT**

29.1 Bydd y Trwyddedai’n sicrhau bod yna Bolisi Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus priodol mewn grym yn ystod cyfnod y Drwydded, sy’n berthnasol i’w ddefnydd o’r Safle ar gyfer Adloniant Cyhoeddus.

**HYRWYDDO AMCANION TRWYDDEDU:**

**a. Cyffredinol – pob un o’r pedwar amcan trwyddedu:** Nid yw’r mathau o adloniant rheoledig a gynigir yn y bôn yn gwneud dim mwy nag ailsefydlu’r adloniant tafarn oedd heb ei reoleiddio gynt.

**b. Atal Troseddau ac Anhrefn:** Bydd unrhyw berson sy’n ymgymryd â gweithgaredd diogelwch (fel y’i diffinnir ym mharagraff 2(1)(a) o Atodlen 2 Deddf y Diwydiant Diogelwch Preifat 2001) wedi’i drwyddedu gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch. Bydd unrhyw unigolyn o’r fath a gyflogir ar y safle yn ôl disgresiwn y goruchwyliwr safle dynodedig/deiliad y Drwydded Safle. Bydd unrhyw berson o’r fath yn arddangos ei fathodyn enw yn glir bob amser pan mae ar ddyletswydd. Ni chaniateir mynediad i unrhyw gwsmeriaid sydd i’w gweld yn cario poteli agored i’r Safle ar unrhyw adeg y mae’r Safle ar agor i’r cyhoedd. Lle mae system CCTV wedi’i gosod gyda chyfleusterau recordio, cedwir unrhyw ddelweddau am gyfnod o 30 diwrnod a byddant ar gael o fewn

amser rhesymol os bydd yr Heddlu'n gofyn am eu gweld.  Ni chaniateir mynd ag alcohol a diodydd eraill oddi ar y safle mewn cynwysyddion agored, ac eithrio ar gyfer eu hyfed mewn ardal allanol sydd wedi'i neilltuo i'r diben hwnnw.  Y nifer uchaf a ganiateir yn yr adeilad (gan gynnwys staff a pherfformwyr) yw 100 o bobl.

c. **Diogelwch Cyhoeddus:** I gydymffurfio â gofynion rhesymol y Swyddog Tân a'r Swyddog Rheoli Adeiladau.
d. **Atal Niwsans Cyhoeddus:** Lle bo'n briodol, arddangosir hysbysiadau amlwg, clir a darllenadwy ger pob allanfa, yn gofyn i'r cyhoedd barchu anghenion y trigolion lleol a gadael y safle a'r ardal mewn modd tawel.  Ni ddylai unrhyw sŵn na dirgryniad ddod o'r safle a allai achosi niwsans i eiddo cyfagos.
e. **Amddiffyn Plant Rhag Niwed:** Ni ddangosir unrhyw ffilmiau neu fideos o unrhyw ddisgrifiad fel bod modd iddynt gael eu gwylio gan bobl dan oed yn ôl unrhyw ardystiad BBFC/Awdurdod Lleol perthnasol.  Ni chaniateir mynediad i'r safle i bobl dan 16 oed ar ôl 2100.

**Atodiad 3 – Amodau yn atodedig yn sgil gwrandawiad gan yr awdurdod trwyddedu/cyfarfod cyfryngu**

## Atodiad 4 – Cynlluniau

